Penwythnos Mawr BBC Radio 1

Bydd sylw'r byd yn cael ei hoelio ar Wynedd y mis yma pan fydd Penwythnos Mawr BBC Radio 1 yn cael ei gynnal ar Stad y Faenol ger Bangor ddydd Sadwrn a Sul, 22-23 Mai.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfed Edwards:

"Dim ond cwta dri mis yn ôl y cyhoeddwyd y byddai'r ŵyl yn cael ei chynnal yma yng Ngwynedd - mae ymdrech fawr wedi ei wneud gan bawb sy'n gweithio ar y fenter i sicrhau fod popeth yn ei le mewn da bryd.

"Mae staff Cyngor Gwynedd wedi bod yn gweithio gyda BBC Radio 1 er mwyn sicrhau mai Penwythnos Mawr eleni fydd yr orau erioed.

"Mae ein gwaith wedi amrywio o sicrhau y bydd y miloedd o bobl fydd yn ymweld â'r sir yn gwybod am atyniadau a llety yn yr ardal; trefnu cyfleon i bobl ifanc lleol fod yn rhan o'r bwrlwm; trefnu bysus gwennol; meysydd parcio a chynlluniau rheoli trafnidiaeth - mae byddin fach o staff y Cyngor wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau llwyddiant.

"Er mwyn sicrhau fod popeth yn rhedeg yn esmwyth dros y ddau ddiwrnod, byddwn yn annog pawb sydd wedi bod yn ddigon lwcus i dderbyn tocynnau i ddarllen ein taflen wybodaeth er mwyn gwybod beth yw'r trefniadau ar gyfer y penwythnos."

Teithio

Mae staff Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda BBC Radio 1, Heddlu Gogledd Cymru, Arriva Trains Wales, Arriva Buses Wales, Gwyliau Seren Arian a chwmnïau tacsis lleol er mwyn sicrhau y gall mynychwyr yr ŵyl fynd a dod mor rhwydd â phosib ac i sicrhau ein bod yn lleihau unrhyw effaith bosib ar drigolion a busnesau lleol.

Gwerthfawrogir eich help drwy gwblhau'r holiadur ar-lein ar wefan Ymweld ag Eryri, ewch i www.ymweldageryri.info a dewis dolen Y Penwythnos Mawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd a dod i'r ŵyl.

- Bysus gwennol

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwyliau Seren Arian ac Arriva Buses Wales i drefnu gwasanaeth bysus gwennol arbennig fydd yn ddolen gyswllt rhwng safle'r ŵyl a Bangor a Chaernarfon. Bydd y Bysus Gwennol yn rhedeg rhwng 10am a 12pm (hanner nos), gyda gwasanaeth sgerbwd rhwng 2pm ac 8pm, ar y ddau ddiwrnod. Mae tocyn dwyffordd yn costio £5. Prynwch docyn o flaen llaw gan Arriva (Gorsaf Bws Bangor, ffôn 01248 362289) neu Wyliau Seren Arian (Maes, Caernarfon, ffôn 01286 672333).

Bydd stiwardiaid ar ddyletswydd drwy'r dydd er mwyn helpu pobl yn y prif arosfannau bws, ac i arwain pobl fydd yn cerdded o'r orsaf trafnidiaeth gyhoeddus arferol i'r arosfannau bws gwennol.

Caernarfon – bydd y bws gwennol yn rhedeg o'r maes parcio ger Doc Fictoria, tu ôl i archfarchnad Morrisons.

Bangor – bydd y bws gwennol yn rhedeg o Ffordd Farrar

- Trafnidiaeth gyhoeddus - bws a thrên

Os ydych yn teithio i'r Penwythnos Mawr o unrhyw ran o ogledd Cymru, cofiwch y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth bws arferol i Fangor neu Gaernarfon a dal y bws gwennol, neu'r gwasanaeth bws cyffredin, i safle'r ŵyl.

Mae trenau rheolaidd hefyd ar hyd arfordir gogledd Cymru ac o Ynys Môn i Fangor. Bydd trên ychwanegol yn rhedeg ar hyd yr arfordir am 11pm. Mae'r bws gwennol yn cysylltu Stad y Faenol â gorsaf drên Bangor.

Ewch i'r gwefannau hyn i ddod o hyd i amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus leol:
www.gwynedd.gov.uk/bwsgwynedd
www.arrivabus.co.uk
www.traveline-cymru.info
www.nationalrail.co.uk

Os ydych yn teithio i'r ŵyl ar drafnidiaeth gyhoeddus, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod faint o'r gloch y bydd y bws neu'r trên olaf yn mynd er mwyn gadael digon o amser i'w cyrraedd. Cofiwch, rhaid cerdded am ychydig funudau o safle'r ŵyl i'r ffordd fawr a bydd angen caniatáu amser i ddal y bws gwennol.

Cyrraedd mewn tacsi/ Cael lifft

Yr unig leoliad i ollwng pobl ar gyfer y digwyddiad yma yw yn Cast Technium ar barc busnes Parc Menai. Dim ond y bysus gwennol swyddogol fydd yn cael gollwng rheini sy'n mynychu'r digwyddiad ar ffordd Felinheli ar waelod prif fynedfa Stad y Faenol. (mae hyn yn wahanol i ddigwyddiadau eraill sydd wedi eu cynnal ar Stad y Faenol). Mae cerddwyr yn cael eu cynghori yn gryf i beidio cerdded i'r digwyddiad ar hyd y rhwydwaith ffyrdd.

- Teithio yn y car

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pawb sy'n teithio i'r Penwythnos Mawr yn y car i geisio rhannu lifft gyda ffrindiau os ydi hynny'n bosib. Neu gallwch gofrestru ar wefan rhannu

car gogledd Cymru a chanfod lifft gyda rhywun sy'n byw yn agos atoch chi sydd hefyd yn mynychu'r ŵyl.
Am ragor o wybodaeth ewch i https://northwales.liftshare.com

- Cyfarwyddiadau

Os ydych yn gyrru o ogledd-ddwyrain Cymru neu Swydd Gaer, defnyddiwch yr A55 a gadael yng Nghyffordd 9 i gyfeiriad Bangor a dilyn yr arwyddion digwyddiad melyn.

Os ydych yn gyrru o Ynys Môn, dilynwch yr A55 dros Bont Britannia a dilynwch yr arwyddion digwyddiad melyn.

Os ydych yn teithio o gyfeiriad y de ddwyrain, dilynwch yr A5 am Fangor a dilynwch yr arwyddion digwyddiad melyn.

Od ydych chi'n teithio o weddill Cymru, dilynwch un ai'r A499 neu'r A487 am Gaernarfon, ac yna dilynwch yr A487 am Fangor a dilynwch yr arwyddion digwyddiad melyn.

Os byddwch yn cael lifft gan dacsi, neu gan ffrind neu berthynas, byddwch yn cael eich cyfeirio at adeilad Cast ym Mharc Menai.

- Parcio

Bydd mwy na 4,000 o lefydd parcio ar y stad.

Mae ffi parcio – COFIWCH – bydd yn rhatach i brynu eich tocyn parcio o flaen llaw (£7.50 o flaen llaw o gymharu â £10 ar y diwrnod). Wrth archebu lle parcio o flaen llaw, bydd gan staff Cyngor Gwynedd llawer gwell syniad am faint o geir y bydd angen lle ar eu cyfer a bydd hyn yn helpu'r Cyngor i reoli traffig yn well ac i wneud y Penwythnos Mawr yn ddigwyddiad arbennig.

Mae ticedi parcio ar gael gan Arriva (Gorsaf Bysus Bangor, ffon 01248 362289) neu Wyliau Seren Arian (Maes, Caernarfon ffon 01286 672333 / 21 Stryd y Brenin, Wrecsam ffon 01978 898450).

Safle gŵyl y Penwythnos Mawr

- Oriau agor

Bydd safle Penwythnos Mawr Radio 1 yn agor am oddeutu hanner dydd ar y ddau ddiwrnod. Bydd y digwyddiad yn dod i ben am 10pm ar y ddwy noson.

- Lluniaeth

Bydd bwyd a diod yn cael ei werthu ar y safle. COFIWCH - ni fydd modd i chi fynd a'ch bwyd a'ch diod eich hun i'r wyl oni bai am gyflenwad personol o ddŵr mewn potel blasting gyda sêl heb ei dorri (hyd at 500ml y person).

- Mynediad i bobl anabl

Bydd llwyfan gwylio ar gyfer pobl anabl ar y ddau brif lwyfan gyda mynediad at gyfleusterau toiled, ond noder fod y safle ar gae gwyrdd heb lwybrau pwrpasol. Mae parcio ar gael i bobl anabl gyda bathodynnau glas ar sail gyntaf i'r felin. Bydd cyfleusterau hefyd ar gael o'r babell wybodaeth.

Gwybodaeth ddefnyddiol arall

- Does dim gwersyllfa ym Mhenwythnos Fawr Radio 1

- Does dim cyfyngiad oedran ar gyfer rheini sy'n mynychu'r Penwythnos Mawr, ond mae rhaid i rheini sydd dan 16 fod yng nghwmni person cyfrifol sydd 18 neu drosodd.

- Ni does angen tocyn ar gyfer plant dan ddyflwydd oed. Os ydych yn dod â phlant i'r ŵyl, dylech gofio fod hwn yn ddigwyddiad cerddoriaeth byw gyda thyrfaoedd mawr o bobl.

- Bydd bwyd ac alcohol ar werth ar y safle. Bydd gofyn i'r rheini sy'n edrych dan 21 i brofi eu hoedran wrth brynu alcohol. Yr unig brawf oedran a dderbynnir fydd trwydded yrru cerdyn llun neu basbort.

- Os ydych yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod amser y bws neu'r trên olaf a rhowch digon o amser i chi'ch hun i gyrraedd mewn da bryd.

- Os ydych yn teithio adref mewn tacsi neu os ydych chi'n cael lifft gan ffrindiau neu berthynas gwnewch yn siŵr eich bod wedi trefnu lleoliad ac amser penodol.